

Cais am orchymyn cyswllt dan adran 26 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Ffurflen A53)

Nodiadau ar lenwi'r ffurflen

Pwysig

Ni ddylid defnyddio'r ffurflen hon ond os ydych yn gwneud cais am orchymyn cyswllt dan adran 26 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

Os ydych yn atodi unrhyw orchymyn gan yr Uchel Lys neu lys sirol i'ch cais, rhaid iddo fod yn gopi wedi'i selio (hynny yw, copi wedi ei stampio â sêl y llys). Os ydych yn atodi gorchymyn a wnaed gan lys ynadon, rhaid iddo fod yn gopi ardystedig (copi yr ardystiwyd gan swyddog y llys ei fod yn gopi cywir o'r gorchymyn gwreiddiol), neu gopi sydd â stamp y llys gwreiddiol arno. Rhaid i orchymyn a gyflwynwyd gan unrhyw awdurdod arall gael ei ddilysu'n briodol gan yr awdurdod hwnnw. Os ydych yn ansicr ynghylch beth sydd ei angen, cysylltwch â'r llys am gymorth.

Ewch a'r ffurflen gais wedi'i chwblhau, ynghyd â **thri chopi** ohoni i'r llys, neu ei hanfon yno, ynghyd â ffi'r llys ac unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu hatodi i gefnogi'ch cais. Os nad ydych yn sicr o'r ffi sy'n daladwy i'r llys am eich cais, neu y credwch y gallech fod wedi'ch esemptio rhag talu'r holl ffi neu gyfran ohoni, dylech gysylltu â'r llys i gael gwybodaeth.

Nodiadau ar y ffurflen gais

Nodyn 1

Lle bo plentyn dan chwe wythnos oed wedi'i roi i'w fabwysiadu dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 neu fod asiantaeth fabwysiadu wedi'i hawdurdodi i roi plentyn i'w fabwysiadu dan y Ddeddf, ni ellir cael cyswllt â'r plentyn ond yn yr amgylchiadau canlynol:

- drwy drefniant gyda'r asiantaeth sydd wedi rhoi'r plentyn i'w fabwysiadu, neu a awdurdodwyd i wneud hynny, **neu**
- drwy orchymyn llys a wnaed dan adran 26 y Ddeddf.

Bydd unrhyw ddarpariaeth bresennol am gyswllt gyda'r plentyn, a wnaed dan Ddeddf Plant 1989 yn dod yn ddi-rym (adran 26(1) Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002).

Application for a contact order under section 26 of the Adoption and Children Act 2002 (Form A53)

Notes on completing the form

Important

This form is for use only if you are applying for a contact order under Section 26 of the Adoption and Children Act 2002.

If you are attaching any order of the High Court or a county court to your application, it must be a sealed copy of the order (that is, a copy that has been stamped with the seal of the court). If you are attaching an order made by a magistrates' court, it must be a certified copy (a copy certified by the court officer to be a true copy of the original order), or a copy that bears the stamp of the originating court. An order issued by any other authority must be properly authenticated by that authority. If you are in any doubt about what is needed, please contact the court for assistance.

Take or send the completed application form, and **three copies**, to the court, together with the court fee and any documents you are attaching in support of your application. If you are not sure about the court fee payable for your application, or you think that you may be exempt from paying all or part of the fee, you should contact the court for information.

Notes on the application form

Note 1

Where a child under six weeks old has been placed for adoption under the Adoption and Children Act 2002 or an adoption agency is authorised to place a child for adoption under the Act, contact with the child may only be:

- by arrangement with the agency that has placed the child, or is authorised to do so, **or**
- by a court order made under section 26 of the Act.

Any existing provision for contact with the child made under the Children Act 1989 ceases to have effect (section 26(1) of the Adoption and Children Act 2002).

Caiff y canlynol wneud cais i'r llys am orchymyn cyswllt:

- y plentyn;
- yr asiantaeth fabwysiadu;
- unrhyw riant, gwarcheidwad neu berthynas;*
- unrhyw berson y gwnaed darpariaeth am gyswllt o'i blaid dan Ddeddf Plant 1989 a ddaeth yn ddi-rym yn rhinwedd adran 26(1) Deddf 2002;
- person oedd â gorchymyn preswyllo yn union cyn i'r asiantaeth fabwysiadu gael ei hawdurdodi i roi'r plentyn i'w fabwysiadu, neu iddi roi'r plentyn i'w fabwysiadu ar adeg pan oedd ef/hi'n iau na chwe wythnos oed;
- person, yn rhinwedd gorchymyn a wnaed wrth weithredu awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys mewn perthynas â phlant (gwardiaeth), oedd â gofal am y plentyn yn union cyn i'r asiantaeth fabwysiadu gael ei hawdurdodi i roi'r plentyn i'w fabwysiadu, neu iddi roi'r plentyn i'w fabwysiadu ar adeg pan oedd ef/hi'n iau na chwe wythnos oed; **neu**
- unrhyw berson sydd wedi derbyn caniatâd y llys i wneud y cais. Rhaid gwneud cais am ganiatâd y llys dan Ran 18 Rheoliadau Trefniadaeth Teulu 2010, gan ddefnyddio ffurflen FP2.

* mae 'perthynas' yn golygu taid neu nain, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb - boed drwy waed cyfan neu hanner gwaed, neu drwy briodas neu bartneriaeth sifil.

Nodyn 2

Os ydych yn ddarpar-fabwysiadwr (hynny yw, y byddwch yn gwneud cais i fabwysiadu'r plentyn) gweler Nodyn 5 isod. Fel arall, os nad ydych eisiau i'ch cyfeiriad preifat a'ch rhif ffôn, neu gyfeiriad y plentyn, neu (os nad yw'r plentyn yn byw gyda chi) enw'r person y mae'r plentyn yn byw gydag ef/hi, gael eu datgelu i unrhyw barti arall, **peidiwch â nodi'r manylion hynny ar y ffurflen gais hon.** Yn hytrach, dylech nodi'r manylion ar Ffurflen A65 y mae'n rhaid i chi ei ffeilio yn y llys gyda'ch cais. Ni fydd y wybodaeth honno'n cael ei datgelu i unrhyw berson arall wedyn, heblaw drwy orchymyn y llys.

Nodyn 3

Os ydych yn gwneud cais fel un o swyddogion yr asiantaeth fabwysiadu a awdurdodwyd i roi'r plentyn i'w fabwysiadu, neu sydd wedi rhoi'r plentyn i'w fabwysiadu, dylech roi enw a chyfeiriad yr asiantaeth fabwysiadu, a'r rhif ffôn ar gyfer cysylltu â chi yn ystod oriau gwaith.

An application to the court for a contact order may be made by:

- the child;
 - the adoption agency;
 - any parent, guardian or relative;*
 - any person in whose favour there was provision for contact under the Children Act 1989 which ceased to have effect by virtue of section 26(1) of the 2002 Act;
 - a person who had the benefit of a residence order immediately before the adoption agency was authorised to place the child for adoption, or placed the child for adoption at a time when he/she was less than six weeks old;
 - a person who by virtue of an order made in the exercise of the High Court's inherent jurisdiction with respect to children (wardship) had care of the child immediately before the adoption agency was authorised to place the child for adoption, or placed the child for adoption at a time when he/she was less than six weeks old;
- or**
- any person who has the permission of the court to make the application. An application for the court's permission must be made under Part 18 of the Family Procedure Rules 2010, using form FP2.

*'relative' means a grandparent, brother, sister, uncle or aunt, whether of the full blood or half-blood, or by marriage or civil partnership.

Note 2

If you are a prospective adopter (that is, you will be making an application to adopt the child) please see Note 5 below. Otherwise, if you do not want your private address and telephone number, or the child's address, or (if the child does not live with you) the name of the person with whom the child lives, to be disclosed to any other party, **do not enter those details on this application form.** Instead you should enter the details on Form A65, which you must file at the court with your application. The details will not then be disclosed to any person, except by order of the court.

Note 3

If you are applying as an officer of the adoption agency that is authorised to place the child for adoption, or has placed the child for adoption, you should enter the name and address of the adoption agency, and the telephone number on which you can be contacted during working hours.

Nodyn 4

Rhowch fanylion:

- unrhyw orchymyn cyswllt a wnaed o'ch plaid dan adran 8 neu adran 34 Deddf Plant 1989;
- unrhyw orchymyn preswyllo a wnaed o'ch plaid;
- unrhyw orchymyn a wnaed drwy weithredu awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys mewn perthynas â phlant, yn rhoi gofal am y plentyn i chi,

a oedd mewn grym **yn union cyn** i'r asiantaeth fabwysiadu gael ei hawdurdodi i roi'r plentyn i'w fabwysiadu, neu iddi roi'r plentyn i'w fabwysiadu ar adeg pan oedd ef/hi'n iau na chwe wythnos oed. Rhowch enw'r llys a wnaeth y gorchymyn, y math o orchymyn, dyddiad y gorchymyn a rhif yr achos.

Rhowch gopi o'r gorchymyn ynghlwm â'ch cais.

Nodyn 5

Os ydych yn ddarpar-fabwysiadwr (hynny yw, y byddwch yn gwneud cais i fabwysiadu'r plentyn) ac nad ydych eisiau datgelu pwy ydych i rieni neu warcheidwaid y plentyn, bydd y llys yn rhoi rhif cyfresol i chi. Bydd unrhyw ddogfennau a anfonir at y partion eraill yn dangos y rhif cyfresol, nid eich manylion personol. Os yw'n ofynnol i chi fynd i'r un gwrandawriad llys, bydd y llys yn gwneud trefniadau i sicrhau na ddatgelir pwy ydych.

Os ydych eisoes wedi derbyn rhif cyfresol, sicrhewch y nodir ef yn Rhan 2 paragraff (i) (Ynghylch gorchmynion neu achosion eraill sy'n effeithio ar y plentyn).

Nodyn 6

Os oes unrhyw achosion blaenorol neu gyfredol yn ymwneud â'r plentyn, rhowch enw'r llys, natur yr achos a dyddiad ac effaith unrhyw orchymyn a wnaed. Os oeddech yn barti i unrhyw achos a gwblhawyd, dylech roi copi o'r gorchymyn terfynol ynghlwm â'ch cais. **Nid oes angen ichi ailadrodd unrhyw fanylion gorchmynion a roddwyd eisoes gennyh yn Rhan 1 y ffurflen gais na manylion unrhyw achosion lleoli a roddwyd ym mharagraff (g) Rhan 2.**

Note 4

Give details of:

- any order for contact made under section 8 or section 34 of the Children Act 1989 that was made in your favour;
- any residence order that was made in your favour;
- any order made in exercise of the High Court's inherent jurisdiction with respect to children giving you care of the child,

which was in effect **immediately before** the adoption agency was authorised to place the child for adoption, or placed the child for adoption at a time when he/she was less than six weeks old. Please give the name of the court that made the order, the type of order, the date of the order and the case number.

Please attach a copy of the order to your application.

Note 5

If you are a prospective adopter (that is, you will be making an application to adopt the child) and you do not want your identity to be made known to the parents or guardians of the child, the court will issue you with a serial number. Any documents sent to the other parties will show the serial number, not your personal details. If you are required to attend the same court hearing, the court will make arrangements to ensure that your identity is protected.

If a serial number has already been issued to you, please ensure that it is entered in Part 2 paragraph (i) (About other orders or proceedings that affect the child).

Note 6

If there are any other earlier, or current, court proceedings relating to the child, give the name of the court, the nature of the proceedings and the date and effect of any order made. If you were a party to any proceedings that have been completed, you should attach a copy of the final order to your application. **You do not need to repeat any details of orders you have already given in Part 1 of the application form, or details of any placement proceedings you have given in paragraph (g) of Part 2.**

Nodyn 7

Os yw'r plentyn wedi ei fabwysiadu'n flaenorol, rhowch enwau'r rhieni a'i mabwysiadodd ef/hi ac nid y rhieni naturiol.

Nodyn 8

Os nad oedd rhieni'r plentyn wedi priodi adeg ei enedigaeth, gallai tad y plentyn fod wedi cael cyfrifoldeb rhieni

- drwy briodi mam y plentyn yn ddiweddarach;
- oherwydd bod ganddo gytundeb cyfrifoldeb rhieni gyda'r fam, neu y dyfarnwyd gorchymyn cyfrifoldeb rhieni iddo, neu
- oherwydd ei fod wedi cofrestru genedigaeth y plentyn ar y cyd â mam y plentyn (ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2003).

Rhowch fanylion unrhyw orchymyn llys neu gytundeb mewn perthynas â chyfrifoldeb rhieni yn Rhan 2 Ynghylch y plentyn, paragraff (i).

Nodyn 9

Os nad oes gan y plentyn warcheidwad, nodwch 'amherthnasol'. Fel arall, rhowch fanylion unrhyw berson a benodwyd i fod yn warcheidwad i'r plentyn drwy weithred neu ewyllys neu fel arall yn ysgrifenedig yn unol ag adran 5(5) Deddf Plant 1989, neu drwy orchymyn a wnaed dan adran 5(1) neu 14A y Ddeddf honno. Os oes gan y plentyn fwy nag un gwarcheidwad, rhowch enw a chyfeiriad unrhyw warcheidwad/warcheidwaid eraill ar ddalen ar wahân, gan nodi enw llawn y plentyn, rhif y Rhan a chyfeirnod y paragraff ar frig y ddalen.

Nodyn 10

Os chi yw'r darpar-fabwysiadwr a bod gennych eisoes rif cyfresol neu eich bod wedi gofyn am un, dylech sicrhau nad yw'r rhesymau dros eich cais yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai arwain at ddatgelu pwy ydych. Dylai unrhyw geisydd sydd wedi gwrthod rhoi eu cyfeiriad neu rif ffôn, neu gyfeiriad y plentyn neu enw'r person y mae'r plentyn yn byw gydag ef/hi, ar y ffurflen gais, sicrhau nad ydynt yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai arwain at ddatgelu'r manylion hyn.

Note 7

If the child has previously been adopted, give the names of his/her adoptive parents and not those of his/her natural parents.

Note 8

If the child's parents were not married at the time of his/her birth, the child's father may have acquired parental responsibility

- by subsequent marriage to the child's mother;
- because he has a parental responsibility agreement with the mother, or has been granted a parental responsibility order, or
- because he registered the child's birth jointly with the child's mother (on or after 1 December 2003).

Give details of any court order or agreement in respect of parental responsibility in Part 2 About the child, paragraph (i).

Note 9

If the child does not have a guardian, enter 'not applicable'. Otherwise, enter the details of any person appointed to be the child's guardian by deed or will or otherwise in writing in accordance with section 5(5) of the Children Act 1989, or by an order made under section 5(1) or 14A of that Act. If the child has more than one guardian, please give the name and address of any other guardian(s) on a separate sheet, putting the child's full name, the number of the Part and the paragraph reference at the head of the sheet.

Note 10

If you are the prospective adopter and you already have a serial number or have asked for one to be issued, you should make sure that the reasons for your application do not include any information that could lead to your identity being disclosed. Any applicant who has withheld their address or telephone number, or the child's address or the name of the person with whom the child lives on the application form should make sure that they do not include any information that could lead to these details being disclosed.

Cymorth neu gyfleusterau arbennig ar gyfer anabledd os byddwch yn mynychu'r llys

Note 11

Os bydd angen cymorth neu gyfleusterau arbennig arnoch ar gyfer anabledd neu nam, nodwch eich anghenion yn llawn. Bydd ar staff y llys angen gwybod, er enghraifft, a ydych eisiau i ddogfennau gael eu darparu mewn fformat gwahanol, megis Braille neu brint bras. Bydd arnynt angen gwybod hefyd am unrhyw anghenion penodol a allai fod gennych ar ddiwrnod y gwrandawriad, megis mynediad at gadair olwyn, system dolen glyw neu ddehonglydd iaith arwyddion.

Bydd staff y llys yn cysylltu â chi ynghylch eich anghenion. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'r llys am eich holl anghenion. Oni wnewch hynny, efallai y bydd yn rhaid gohirio'r gwrandawriad o ganlyniad.

Special assistance or facilities for disability if you attend the court

Note 11

If you need special assistance or special facilities for a disability or impairment, please set out your requirements in full. The court staff will need to know, for example, whether you want documents to be supplied in an alternative format, such as Braille or large print. They will also need to know about any specific requirements you may have on the day of the hearing, such as wheelchair access, a hearing loop, or a sign language interpreter.

The court staff will get in touch with you about your requirements. It is important that you make the court aware of all your needs. If you do not, the result may be that the hearing has to be adjourned.